Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Wasanaeth Cyfeirio Disgyblion Sir Fynwy
# Hanbury House
# Welsh Street
# Cas-gwent
# Sir Fynwy
# NP16 5LL

## Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Gwasanaeth Cyfeirio Disgyblion Sir Fynwy

Uned cyfeirio disgyblion (UCD) a gynhelir gan awdurdod lleol Sir Fynwy yw Gwasanaeth Cyfeirio Disgyblion (GCD) Sir Fynwy. Lleolir y GCD ar bedwar safle, ond gyda strwythur rheoli llinell integredig, a oruchwylir gan un pwyllgor rheoli. Nod y gwasanaeth yw dychwelyd disgyblion i addysg y brif ffrwd, neu eu cynorthwyo i fynd i mewn i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Mae'r GCD yn darparu addysg i ddisgyblion yng nghyfnodau allweddol 2, 3 a 4 ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (ACEY). Mae hyn yn cynnwys gwersi ym mhob un o'r pedwar safle, gwasanaeth allgymorth cynradd a gwasanaeth addysg yn y cartref.

Mae 43 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae llawer o ddisgyblion wedi'u cofrestru mewn ysgolion prif ffrwd eraill hefyd. Mae datganiadau o anghenion addysgol arbennig gan ryw 10% o ddisgyblion. Mae rhyw 40% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn derbyn gofal gan eu hawdurdod lleol. Daw bron pob un o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir Saesneg fel y brif iaith.

Er 2016, mae'r GCD wedi bod yng ngofal athro dros dro am fod y pennaeth ar secondiad gan yr awdurdod lleol i arwain ysgol arbennig leol.

## Crynodeb

Mae'r GCD yn llwyddiannus o ran cyflawni'i nodau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws y gwasanaeth yn datblygu'r medrau a'r hyder sydd eu hangen arnynt i ddychwelyd yn llwyddiannus i ysgol leol, darparwr hyfforddiant neu goleg addysg bellach. Gwneir cynnydd addas gan lawer ohonynt yn eu dysgu mewn perthynas â'u mannau cychwyn, eu hanghenion a'u galluoedd.

Mae ansawdd yr addysgu yn dda ar draws y GCD. Mae athrawon yn cynllunio'n ofalus i ddarparu profiadau dysgu sy'n bodloni anghenion a dyheadau disgyblion yn dda. Ceir ffocws cryf yn yr addysgu ar helpu disgyblion i wella'u medrau llythrennedd a rhifedd. Mae gan y staff berthnasoedd gweithio da iawn gyda disgyblion. Maent yn deall anghenion cymdeithasol ac emosiynol disgyblion yn dda ac yn rheoli ymddygiad heriol yn fedrus.

Mae'r GCD wedi ffurfio partneriaethau effeithiol gyda rhanddeiliaid pwysig, a chaiff y rhain effaith fuddiol ar ddeilliannau a lles disgyblion. Mae uwch arweinwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda. Maent wedi sefydlu nodau clir ar gyfer y gwasanaeth ac yn darparu ystod eang o gyfleoedd gwerthfawr i'r staff ddatblygu'u gwybodaeth a'u medrau. Fodd bynnag, nid yw gweithdrefnau hunanarfarnu'r gwasanaeth yn ddigon cadarn ac mae angen eu gwella. Nid ydynt yn darparu sylfaen ddigon cadarn i yrru gwelliant yn ei flaen mewn meysydd pwysig fel presenoldeb disgyblion a safonau mewn llythrennedd.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwella** |

## Argymhellion

A1 Gwella hunanarfarnu a chynllunio gwelliant

A2 Gwella presenoldeb disgyblion

A3 Gwella medrau llythrennedd disgyblion

A4 Sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd i gyfrannu eu barnau

A5 Datblygu rôl y pwyllgor rheoli, fel eu bod yn darparu cymorth a her effeithiol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr UCD yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr UCD.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae gan ddisgyblion sy'n mynychu Gwasanaeth Cyfeirio Disgyblion Sir Fynwy ystod o anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, ac mae llawer ohonynt yn cael anhawster yn rheoli eu hymddygiad yn eu hysgolion prif ffrwd. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn dechrau yn y gwasanaeth heb fawr o hyder, ac maent yn ei chael hi'n anodd datblygu perthnasoedd ymddiriedus gyda staff.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn dda i ethos cefnogol y GCD ac ymyriadau medrus y staff. Gwnânt gynnydd addas mewn perthynas â'u mannau cychwyn, eu hanghenion a'u galluoedd. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn ymgysylltu'n arbennig o dda â gweithgareddau galwedigaethol a gweithgareddau cysylltiedig â gwaith, lle cânt fwy o ddewis o ran beth maent yn ei astudio a sut. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn ymgysylltu'n gadarnhaol ac nid ydynt yn gwneud digon o gynnydd yn eu dysgu.

Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 ar y safle cynradd yn ymateb yn dda i'r ymagwedd anogol a ffiniau cyson. Gwnânt gynnydd cryf wrth ddilyn trefn ddyddiol, rheoli eu hymddygiad a dysgu drwy chwarae. Maent yn awyddus i sôn wrth ymwelwyr am eu gwaith ac maent yn falch o'u cyflawniadau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws y gwasanaeth yn datblygu'r medrau a'r hyder sydd eu hangen arnynt i ddychwelyd yn llwyddiannus i ysgol leol, darparwr hyfforddiant neu goleg addysg bellach. Y llynedd, parhaodd 95% o ymadawyr mewn addysg amser llawn, cyflogaeth neu hyfforddiant. Yn y flwyddyn academaidd bresennol, mae wyth o ddisgyblion wedi trosglwyddo'n llwyddiannus i ddarpariaethau eraill.

Nid yw'n briodol cymharu'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni yn y gwasanaeth â chyfartaleddau cenedlaethol, na dadansoddi tueddiadau perfformiad grwpiau dros gyfnod oherwydd natur anghenion dysgu ychwanegol y disgyblion. Ar draws y GCD, yn gyffredinol, mae disgyblion yn cwblhau mwy o waith, yn gwneud gwell cynnydd ac â safonau uwch yn eu medrau rhifedd o gymharu â'u medrau llythrennedd.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae tuedd gynyddol yn nifer a safonau cymwysterau y mae disgyblion yn eu cyflawni yng nghyfnod allweddol 4. Mae bron pob disgybl yn gadael y gwasanaeth gydag o leiaf un cymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol ar gyrsiau sydd, yn gyffredinol, yn cyfateb yn dda i'w hanghenion a'u galluoedd. Mae'r rhain yn cynnwys cyrsiau gwerthfawr yn gysylltiedig â gwaith ac ystod fach o gymwysterau TGAU. Yn 2017, gadawodd bron i holl ddisgyblion Blwyddyn 11 gyda chymhwyster TGAU mewn Saesneg a mathemateg.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn dangos medrau rhif cadarn sy'n briodol i'w hoedran. Maent yn dewis dulliau priodol ar gyfer cyfrif ac yn cymhwyso pedair rheol rhif yn llwyddiannus i ddatrys problemau. Gall llawer o ddisgyblion gasglu data ac arddangos gwybodaeth mewn ystod fach o graffiau a siartiau priodol. Mae ychydig o ddisgyblion hŷn sy'n fwy abl yn hyderus wrth ddadansoddi data a dônt i gasgliadau rhesymol o wybodaeth mewn graffiau llinell, graffiau bar a siartiau cylch. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 wybodaeth gadarn am

nodweddion siapiau dau ddimensiwn a thri dimensiwn, a gallant ddefnyddio'u gwybodaeth i gyfrif perimedr. Mae disgyblion mwy abl yn ehangu'u gwybodaeth trwy gyfrif arwynebedd siapiau cyfansawdd. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn ddigon da mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm ac nid ydynt yn ymarfer y medrau hyn mewn sefyllfaoedd go iawn.

At ei gilydd, mae tua hanner y disgyblion yn gwneud cynnydd boddhaol wrth ddatblygu'u medrau llythrennedd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda wrth weithio mewn sefyllfa un i un, ac maent yn ymateb yn synhwyrol i gwestiynau gan staff ac ymwelwyr. Mae llawer o ddisgyblion yn mynegi'u hunain yn glir. Mae ychydig o ddisgyblion yn siarad yn hyderus am eu gobeithion i'r dyfodol, yn defnyddio geirfa penodol i bwnc yn gywir ac yn rhoi rhesymau dros eu barnau.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen cadarn. Maent yn casglu gwybodaeth o ystod eang o destunau i nodi gwybodaeth allweddol er mwyn llunio casgliadau. Er enghraifft, mewn addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh), maent yn llithrddarllen a sganio testunau i nodi prif nodweddion iechyd meddwl da, a defnyddiant y wybodaeth hon i nodi ffyrdd o gadw'n ddiogel.

Mae tua hanner y disgyblion yn ysgrifennu'n gydlynus, yn trefnu'u gwaith ysgrifenedig yn dda ac yn defnyddio atalnodi yn gywir. Mae'r disgyblion hyn yn ymfalchïo yng nghyflwyniad eu gwaith ysgrifenedig. Fodd bynnag, ar y cyfan, dim ond atebion ysgrifenedig byr, heb eu datblygu'n ddigonol y mae disgyblion yn eu darparu, ac ychydig iawn o waith ysgrifenedig y mae lleiafrif o ddisgyblion yn ei gynhyrchu.

Gwneir defnydd effeithiol o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu gan lawer o ddisgyblion i ymchwilio i destunau a chyflwyno'u gwaith. Er enghraifft, defnyddiant y rhyngrwyd a rhaglenni cyfrifiadur sylfaenol i gynhyrchu prosiectau mewn addysg alwedigaethol ar destunau fel twristiaeth yng Nghymru, ac addasrwydd lleoliadau profiad gwaith.

Mae medrau dysgu annibynnol cadarn gan fwyafrif o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4, er eu bod yn llai hyderus wrth weithio mewn parau a grwpiau. Mae gan ychydig o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o'u cryfderau a meysydd i'w datblygu. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn or-ddibynnol ar staff i gyfeirio'u dysgu a rheoli'u hymddygiad.

Mae tua hanner y disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn datblygu medrau cymdeithasol defnyddiol a hunanbarch trwy gyfranogi mewn lleoliadau profiad gwaith a mynychu cyrsiau mewn colegau lleol.

Yn gyffredinol, cynnydd cyfyngedig a wneir gan ddisgyblion ar draws y GCD wrth ddatblygu'u medrau Cymraeg.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Digonol ac angen gwella

Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel a chredant mai ychydig iawn o ddigwyddiadau o fwlio a geir yn y GCD. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod pwy i fynd atynt os ydynt yn pryderu neu'n poeni. Mae disgyblion ym mhob canolfan yn adeiladu perthnasoedd cadarnhaol gyda'r staff. Mae hon yn nodwedd gref yn y gwasanaeth. Mae llawer o ddisgyblion yn foesgar ac yn dangos parch at staff a'i gilydd. Mae'r gallu hwn i ffurfio perthnasoedd ymddiriedus yn helpu'r rhan fwyaf o

ddisgyblion i ail-integreiddio'n llwyddiannus mewn ysgol brif ffrwd neu i drosglwyddo'n llwyddiannus i ddarpariaethau eraill.

Mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu'u dealltwriaeth o fwyta a byw'n iach yn dda, trwy wersi ffurfiol a chymorth a chyngor pwrpasol. Er enghraifft, maent yn creu bwydlen gytbwys mewn gwersi coginio, yn trafod pwysigrwydd ymarfer corff ac yn disgrifio'r niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau mewn gwersi addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh). Mae ychydig o ddisgyblion hŷn yn arddangos dealltwriaeth graff o'u hiechyd meddwl eu hunain, a sut i ddiogelu eu hunain. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion hŷn yn rhoi eu dealltwriaeth o'r hyn sy'n cyfrannu at ffordd iach o fyw ar waith, ac ar hyn o bryd dim ond ychydig o ddisgyblion sy'n cymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithgarwch corfforol.

Mae llawer o ddisgyblion yn rhoi eu barnau ynglŷn â'u haddysg a gwaith y GCD trwy drafodaethau anffurfiol gyda staff. Er enghraifft, y nhw sy'n dewis lleoliad ymweliadau addysgol fel rhan o raglen alwedigaethol ac yn dewis pa destunau y maent eisiau canolbwyntio arnynt mewn sesiynau adolygu. Fodd bynnag, nid oes rolau arwain gan y disgyblion yn y GCD, ac nid ydynt yn mynegi'u barnau ar eu cynnydd eu hunain a'r ddarpariaeth a wneir ar eu cyfer gan y gwasanaeth.

At ei gilydd, mae presenoldeb yn rhy isel yn y GCD. Ar gyfer tua hanner y disgyblion, mae cyfraddau presenoldeb yn y GCD islaw hynny yr oedd yn eu hysgolion prif ffrwd. O'r disgyblion hynny sy'n mynychu'n fwy rheolaidd, mae llawer ohonynt yn cyrraedd y GCD yn brydlon ac yn barod i ddysgu. Mae'r mwyafrif yn aros ar gyfer y sesiwn gyfan.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos safonau ymddygiad da. Mae llawer ohonynt yn ymgysylltu'n dda mewn gwersi, ac yn gallu gofyn am gymorth pan fyddant yn wynebu anawsterau. Ni fu unrhyw waharddiadau cyfnod penodol ar draws y GCD eleni, a dim ond un gwaharddiad cyfnod penodol sydd wedi bod yn y tair blynedd diwethaf.

### Addysgu a phrofiadau dysgu: Da

Mae'r GCD yn darparu ystod addas o brofiadau dysgu gwerthfawr sy'n helpu bron yr holl ddisgyblion i ddatblygu'r wybodaeth a'r medrau y mae eu hangen arnynt i ail-integreiddio'n llwyddiannus mewn addysg y brif ffrwd, dysgu yn y gwaith neu addysg bellach.

Mae'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion oed cynradd yn rhoi ffocws priodol ar ddatblygu hyder disgyblion, eu gallu i weithio gydag eraill ac i ddilyn arferion. Mae'r ddarpariaeth yn galluogi disgyblion i ddysgu trwy weithgareddau chwarae strwythuredig ac mae'n llwyddo i helpu disgyblion wneud cynnydd â'u cyfathrebu, eu medrau cymdeithasol a'u hymddygiad.

Mae'r cwricwlwm yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 yn rhoi ffocws cryf ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion trwy wersi Saesneg a mathemateg dyddiol. Mae ystod fach o opsiynau ymarferol a galwedigaethol diddorol yn darparu dewis cyfyngedig i ddisgyblion o ran beth maent yn ei ddysgu a sut. Mae'r cyrsiau hyn yn helpu disgyblion i ddatblygu medrau ymchwilio pwysig ac i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain.

Mae partneriaethau strategol cryf rhwng y GCD ac ysgolion a cholegau lleol yn galluogi disgyblion i gael mynediad i gyrsiau a chyfleusterau addysgu arbenigol mewn mannau eraill yn y gymuned. Mae hyn yn rhoi ehangder i'r cwricwlwm ac yn cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion yn y GCD cynradd yn elwa o fod wedi'u lleoli mewn ysgol brif ffrwd leol lle maent yn gallu defnyddio'r ystafell synhwyraidd, y llyfrgell a mannau dysgu awyr agored. Mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn dilyn cyrsiau perthnasol mewn pynciau fel gofal anifeiliaid ac amaethyddiaeth mewn coleg addysg bellach lleol. Mae'r GCD wedi sefydlu cysylltiadau gwerthfawr gydag ystod fach o ddarparwyr dysgu yn y gwaith yn lleol er mwyn datblygu llwybrau dysgu priodol i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4.

Yn ddiweddar, mae'r GCD wedi buddsoddi mewn offer TGCh i wella cyflwyno'r fframwaith cymhwysedd digidol. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i arfarnu effaith hyn ar ansawdd profiadau dysgu'r disgyblion.

Yn gyffredinol, nid yw'r cwricwlwm yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion gydweithio a datblygu medrau creadigol a chorfforol.

At ei gilydd, mae ansawdd yr addysgu yn dda yn y GCD.

Mae gan staff ar draws y GCD berthnasoedd gweithio da iawn gyda'r disgyblion. Maent yn deall anghenion cymdeithasol ac emosiynol disgyblion yn dda ac yn rhoi canmoliaeth ac anogaeth iddynt yn gyson. Mae hyn yn helpu mwyafrif y disgyblion i gynnal diddordeb mewn gwersi ac i ddyfalbarhau â thasgau. Mae staff yn rheoli ymddygiad heriol disgyblion yn fedrus ac yn ymateb yn sensitif pan fydd disgyblion yn gweld pethau'n anodd.

Mae athrawon yn cynllunio'n dda i ddisgyblion ddatblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd yn systematig. Ar draws y GCD, mae athrawon yn cynllunio gwersi'n ofalus. Mae gwersi yn cynnwys amcanion dysgu clir, a atgyfnerthir yn rheolaidd gan athrawon. Yn gyffredinol, mae rhediad a strwythur da i wersi. Defnyddir technegau holi yn dda gan staff i wirio dealltwriaeth disgyblion ac i ddatblygu medrau meddwl a medrau datrys problemau disgyblion. Mewn ychydig o wersi, fodd bynnag, ceir gormod o fewnbwn gan athrawon, mae rhediad y dysgu yn rhy araf ac nid yw gweithgareddau dysgu yn ddigon difyr. O ganlyniad, nid yw lleiafrif o ddisgyblion, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4, yn bodloni'u hamcanion dysgu ac nid ydynt yn datblygu'u dealltwriaeth gystal ag y gallent.

Mae bron pob un o'r staff yn rhoi adborth llafar defnyddiol i ddisgyblion. Ar draws y gwasanaeth, mae athrawon yn asesu gwaith disgyblion yn ofalus ac yn darparu adborth defnyddiol ar sut y gall disgyblion wella eu gwaith.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae ethos gofalgar a chefnogol y GCD yn darparu amgylchedd diogel a thawel, sy'n cyfrannu'n gryf at les disgyblion. Mae staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda. Maent yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol gyda bron pob disgybl ac yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i ddatblygu medrau, hyder a gwydnwch disgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ymddiriedaeth mewn oedolion ac yn cael dealltwriaeth well o'u hanghenion emosiynol eu hunain a phwysigrwydd amrywiaeth a goddefgarwch.

Mae'r GCD wedi datblygu system ddefnyddiol i olrhain cynnydd disgyblion. Mae staff yn casglu data o ystod gynhwysfawr o asesiadau buddiol sy'n cwmpasu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion, yn ogystal â'u galluoedd cymdeithasol ac emosiynol. Mae athrawon yn y cyfnod cynradd yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i gynllunio cwricwlwm difyr a perthnasol. Ar draws y gwasanaeth yn gyffredinol, fodd bynnag, nid yw athrawon yn defnyddio'r wybodaeth asesu hon yn ddigon da wrth osod targedau a chynllunio darpariaeth mewn cynlluniau addysg unigol (CAUau) disgyblion a chynlluniau cymorth bugeiliol (CCBau).

Ceir proses gyson ar draws y GCD i staff ymateb i absenoldeb disgyblion. Mae hyn yn cynnwys cyswllt gyda rhieni ar y diwrnod cyntaf o absenoldeb, ymweliadau â'r cartref a chyswllt agos ag asiantaethau arbenigol fel y gwasanaeth lles addysg. Fodd bynnag, nid yw'r GCD yn dadansoddi patrymau neu achosion absenoldeb gwael yn ddigon trylwyr ac ychydig o effaith y mae'r ymyriadau hyn yn ei chael ar hyn o bryd ar absenoldeb parhaus ychydig o ddisgyblion.

Mae'r gwasanaeth yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i helpu disgyblion i ddatblygu'r medrau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen arnynt i gadw eu hunain yn ddiogel ac i wneud dewisiadau sy'n effeithio'n gadarnhaol ar eu hiechyd emosiynol a chorfforol. Mae asiantaethau allanol yn darparu cymorth arbenigol gwerthfawr ar gyfer cyflwyno cwricwlwm ABCh effeithiol.

Mae'r GCD wedi ffurfio partneriaethau effeithiol gyda rhanddeiliaid pwysig sy'n cael effaith fuddiol ar les disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys partneriaethau effeithiol gydag ysgolion lleol, colegau addysg bellach, Gyrfa Cymru a darparwyr gwaith. Mae'r ffocws cryf ar gyrchfannau disgyblion yn nodwedd nodedig o'r gwasanaeth. Mae staff yn cefnogi'r broses bontio yn dda trwy rannu gwybodaeth ddefnyddiol gydag ysgolion partner pan fydd disgyblion yn dychwelyd i addysg y brif ffrwd.

Mae gan staff berthnasoedd cadarnhaol gyda'r rhan fwyaf o rieni, ac maent yn rhannu gwybodaeth ddefnyddiol gyda nhw yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw disgyblion a rhieni yn cael eu cynnwys yn ddigonol yn y broses gosod targedau ac ysgrifennu CAUau a CCBau.

Mae'r gwasanaeth allgymorth cynradd yn darparu cymorth effeithiol i ysgolion prif ffrwd i fodloni anghenion emosiynol ac anghenion dysgu disgyblion y mae perygl iddynt gael eu gwahardd.

Mae cyfarfodydd rheolaidd yn darparu llwyfan defnyddiol i staff ar draws y GCD i drafod ymddygiad a datblygiad cymdeithasol ac emosiynol disgyblion unigol. Fodd bynnag, nid yw'r camau gweithredu sy'n deillio o'r cyfarfodydd hyn mor gadarn ag y gallent fod ar gyfer pob disgybl oherwydd y diffyg dadansoddiad manwl o gynnydd disgyblion mewn meysydd pwysig, fel presenoldeb.

Nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion i gael swyddi â chyfrifoldeb ac i fynegi'u barnau wedi'i datblygu'n ddigonol.

Mae trefniadau'r GCD ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwella**

Mae'r cydlynydd dros dro, y pwyllgor rheoli a'r awdurdod lleol wedi sefydlu nodau clir ar gyfer y GCD. Mae'r nodau hyn yn canolbwyntio ar roi i ddisgyblion y cymwysterau a'r medrau y mae eu hangen arnynt i ddychwelyd yn llwyddiannus i ysgol brif ffrwd neu i drosglwyddo i leoliad priodol arall. Mae uwch arweinwyr yn rhannu'r rhain yn llwyddiannus ar draws y gwasanaeth ac mae staff yn eu croesawu'n llawn.

Mae trefniant y GCD gyda safleoedd ym mhob prif ganolfan boblogaeth yn y sir yn cefnogi nodau'r gwasanaeth yn dda. Er enghraifft, mae'n helpu staff ar bob safle i feithrin perthnasoedd cryf gydag ysgolion lleol, sy'n cefnogi integreiddio yn dda. Hefyd, mae'n lleihau'r pellter y mae'n rhaid i ddisgyblion deithio i dderbyn cymorth ac yn galluogi disgyblion i gynnal cysylltiadau pwysig â'u cyfoedion mewn ysgolion prif ffrwd.

Mae arweinyddiaeth strategol effeithiol wedi arwain at welliannau mewn agweddau fel deilliannau ar gyfer disgyblion a sicrhau mai ychydig iawn o ddisgyblion sydd heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant wrth adael y gwasanaeth. Mae arweinwyr yn effeithiol hefyd yn y ffordd y maent yn addasu'u darpariaeth i ymateb i'r galwadau ar y gwasanaeth sy'n newid yn gyson. Er enghraifft, aethant ati i sefydlu darpariaeth gynradd yn gyflym sy'n bodloni anghenion disgyblion yn dda. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr wedi gweithredu'n ddigon strategol i wella presenoldeb.

Ar y cyfan, mae arweinwyr y GCD yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn dda ac maent yn gweithio'n effeithiol fel tîm. O ganlyniad i ailstrwythuro'r ddarpariaeth yn barhaus ar gyfer dysgwyr agored i niwed yn yr awdurdod lleol, mae nifer o aelodau staff wedi ymgymryd â rolau arweinyddiaeth dros dro yn llwyddiannus. Mae hyn wedi darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr ac wedi sicrhau sefydlogrwydd i'r GCD ar adeg o newid sylweddol. Yn gyffredinol, ceir trefniadau priodol ar gyfer rheoli perfformiad staff, ond mae ansawdd amcanion yn amrywio gormod ac mae trefniadau i adolygu cynnydd yn erbyn cyfrifoldebau arwain yn benodol yn rhy llac.

Mae arweinwyr wedi sefydlu partneriaethau gwerthfawr gydag ysgolion lleol, colegau a busnesau. Gwna'r cysylltiadau hyn gyfraniad pwysig at alluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ail-integreiddio i ysgol brif ffrwd neu ddarpariaethau addas eraill.

Mae'r pwyllgor rheoli yn cynnwys cynrychiolwyr o ystod addas o randdeiliaid, ac mae'n ymroddedig i nodau'r gwasanaeth. Fodd bynnag, nid oes dealltwriaeth ddigon cadarn gan y pwyllgor o'i rôl a'i gyfrifoldebau, yn enwedig o ran ei gyfraniad at gyfeiriad strategol y gwasanaeth. Mae cyfarfodydd pwyllgor yn mynd i'r afael yn briodol â llawer o agweddau ar waith y GCD, fel diogelu, ond nid ydynt yn rhoi sylw dyledus i agweddau pwysig eraill fel y cwricwlwm, cynnydd yn erbyn y cynllun datblygu a phrosesau hunanarfarnu.

Mae arweinwyr wedi bod yn effeithiol yn nodi agweddau penodol ar waith y GCD y mae angen ei ddatblygu ac yn rhoi cynlluniau llwyddiannus ar waith i sicrhau gwelliant. Er enghraifft, fe wnaethant nodi nad oedd disgyblion yn ymgysylltu â gwasanaethau cwnsela a gwnaethant newidiadau llwyddiannus i'r ddarpariaeth a arweiniodd at gynnydd sylweddol yn y defnydd o'r gwasanaeth. Ar y cyfan, fodd bynnag, nid yw prosesau hunanarfarnu'r GCD yn ddigon trwyadl ac nid ydynt yn darparu sylfaen ddigon cadarn i ysgogi gwelliant, yn enwedig mewn meysydd fel

presenoldeb.  Nid yw arweinwyr yn casglu tystiolaeth o ystod eang o ffynonellau addas, gan gynnwys barnau disgyblion a rhieni a chraffu ar waith disgyblion.  Hefyd, pan gesglir tystiolaeth, nid yw arweinwyr yn arfarnu'r canfyddiadau yn ddigon effeithiol.  Er enghraifft, nid yw uwch reolwyr yn defnyddio arsylwadau o wersi a theithiau dysgu yn ddigon da i arfarnu safonau, cynnydd a medrau disgyblion.  O ganlyniad, nid oes golwg glir gan arweinwyr o effeithiolrwydd pob agwedd ar waith y GCD ac nid yw camau ar gyfer gwella yn ddigon manwl.

Mae datblygiad dysgu proffesiynol yr holl staff yn gryfder.  Mae athrawon, gweithwyr cymorth a chynorthwywyr addysgu yn elwa o ystod eang o gyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd i ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol, cyfarfodydd amrywiol i rannu arfer dda, cyrsiau a chymwysterau ar agweddau penodol ar addysgu neu gymorth lles, a chyflwyno hyfforddiant i rai eraill, o fewn y gwasanaeth a thu hwnt.  Mae hyn wedi arwain at addysgu o ansawdd da a chymorth emosiynol gwerthfawr yn cael ei ddarparu i ddisgyblion gan y staff.

Mae'r cydlynydd dros dro yn gweithio'n effeithiol â'r awdurdod lleol i reoli adnoddau.  Mae'r GCD yn gwario cyllid grant yn briodol.  Yn gyffredinol, mae gan y GCD adnoddau da a staff addas.  Mae'r adeiladau a'r cyfleusterau yn y GCD cynradd o ansawdd arbennig o uchel, er bod yr adeilad ar safle Bryn y Cwm yn anaddas ar gyfer nifer y disgyblion sydd wedi'u hamserlennu i fynychu.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr UCD ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa farnau pedwar pwynt, sef:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwella** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwella ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/06/2018